**LC464**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Cwotâu Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2002

Mae'r rheoliadau yn disodli Rheoliadau Cwotâu Cynhychion Llaeth 1997 drwy ddarparu bod cwotâu llaeth yn parhau i fod yn gymwys.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Holwyd pam mae rheoliad 31(2)(c) yn cyfeirio at ystadegau misol pan nad yw'n ymddangos bod unrhyw beth yn rheoliad 28(2) neu yn Erthygl 3(2) o Reoliad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ystadegau fod yn rhai misol. Cadarnhawyd i'r Pwyllgor nad yw rheoliad 28(2) nac Erthygl 3(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ystadegau fod yn rhai misol, er y gellid arfer y pŵer yn rheoliad 28(2) yn y fath fodd ag i'w gwneud yn ofynnol i ystadegau gael eu cyflwyno bob mis.

Mae'n ymddangos felly fod rheoliad 31(2)(c) wedi'i ddrafftio drwy gyfeirio at weithdrefn sydd wedi'i mabwysiadu (neu wedi'i bwriadu) ac sy'n golygu bod gofyn am ystadegau bob mis. Effaith hyn yw na fydd y ddarpariaeth ynglŷn â chosbau yn rheoliad 31 yn gymwys ond os bydd angen ystadegau bob mis. Os câi cyfnod gwahanol ei gymhwyso o dan reoliad 28(2), ni fyddai unrhyw ddarpariaeth ynglŷn â chosbau.

Tynnir sylw felly at hyn fel diffyg drafftio yn ôl pob golwg yn yr ystyr bod rheoliad 31(2)(c) wedi'i ddrafftio heb roi sylw priodol i wir natur y ddarpariaeth yn rheoliad 28(2).

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

23 Ebrill 2002